Cyngor ar Bopeth
Adroddiad effaith
2010/11



Mae gwybodaeth bellach ar gael ar ein gwaith yn 2010/11 a'n cyhoeddiadau corfforaethol blynyddol eraill ar gael yn www.citizensadvice.org.uk/publications

Cyngor ar Bopeth
Adroddiad blynyddol
2010/11

Cyngor ar Bopeth
Adroddiad effaith polisi cymdeithasol
2010/11

Cyngor ar Bopeth
Adroddiad effaith polisi cymdeithasol
2010/11

Dilynwch ni ar Twitter
twitter.com/CitizensAdvice

Dilynwch ni ar Facebook
facebook.com/CitizensAdvice

Gwyliwch ein ffilmiau ar YouTube
youtube.com/CitizensAdvice

citizensadvice.org.uk

Gillian Guy
Prif Weithredwr
Cyngor ar Bopeth

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn heriol a chyffrous i ni, ac rwyf yn falch iawn o'r ffordd rydym wedi ymateb fel gwasanaeth.

Mae pobl wedi profi amseroedd anodd, gyda chostau byw uwch yn ogystal â newidiadau anodd i'r system fudd-daliadau a chynnydd yn nifer y di-waith. Ond wrth wynebu toriadau i wariant cyhoeddus, mae ymroddiad ein staff, gwirfoddolwyr, partneriaid, cefnogwyr ac arianwyr wedi'i gwneud yn bosibl i ni helpu'r un nifer o bobl ag y gwnaethom y llynedd, sef 2.1 miliwn. Gyda gweithlu sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn bennaf, mae canolfannau Cyngor ar Bopeth yn cael eu rhedeg gan y gymuned ar gyfer y gymuned, ac mae pawb yn cydweithio.

Cafodd rhai toriadau i wariant cyhoeddus effaith ar unwaith. Mae eraill yn cyflwyno ansicrwydd hirdymor; y toriadau arfaethedig i gymorth cyfreithiol a'r newidiadau i'r ffordd y mae cyngor wyneb yn wyneb ar ddyledion yn cael ei ariannu. Rydym wedi bod yn brwydro'n galed i ddiogelu argaeledd cyngor am ddim gan ddefnyddio pob adnodd sydd ar gael i ni. Rydym wedi sicrhau sylw sylweddol yn y cyfryngau ac mewn dadleuon seneddol, ac rydym wedi cymryd rhan flaenllaw mewn ymgyrchoedd ar y cyd.

Bob blwyddyn, mae miliynau o bobl yn ymddiried ynom i'w cefnogi neu eu helpu i gefnogi eu hunain. Ac oherwydd bod y cyhoedd yn ymddiried ynom, mae'r Llywodraeth yn ymddiried ynom hefyd. Roeddem yn falch iawn pan gyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i drosglwyddo cyfrifoldeb dros gyngor a gwybodaeth, addysg ac eiriolaeth i ddefnyddwyr i'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. Bydd uno'r swyddogaethau hyn mewn un lle a'u hintegreiddio i'n gwaith presennol yn rhoi mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr ac yn eu grymuso i gael y canlyniad gorau iddynt hwy.

Rydym ar gael i roi cyngor 'ar ôl y digwyddiad' – a byddwn bob amser ar gael – ond mae dewis cynyddol o raglenni arloesol yn helpu cannoedd ar filoedd o bobl i osgoi rhwystrau, delio â phroblemau eu hunain a rhannu eu gwybodaeth gydag eraill. Mae'r dudalen ganlynol yn rhoi disgrifiad byr o'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni i'n cleientiaid, cymunedau a'r gymdeithas ehangach yn ystod 2010/11. Diolch am eich help i wireddu hyn.

© Ian Enness

Newid bywydau

Yn ystod 2010/11, bu i ni helpu 2.1 miliwn o bobl i ddatrys 7.1 miliwn o broblemau. Mae hanesion ein cleientiaid yn dangos sut y gall derbyn y cymorth cywir ar yr amser cywir drawsnewid bywydau.

Ond nid yw datrys problemau pobl yn ddigon. Mae ein mentrau addysgol, megis ein rhaglen gallu ariannol, yn golygu y gallwn roi'r gallu i'n cleientiaid gymryd camau i ddatrys eu problemau eu hunain a hefyd eu helpu i atal problemau rhag codi i ddechrau.

Er ein bod yma bob amser i helpu pan fydd pethau'n mynd o'i le, rydym yn defnyddio profiadau ein cleientiaid i gyflwyno gwelliannau i'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pawb. Y llynedd, amcangyfrifir bod 6.8 miliwn o bobl wedi elwa ar ein gwaith polisi cymdeithasol.

96%
o foddhad cleientiaid

Cyngor ar wella ansawdd bywyd

Roedd yn annhebygol y byddai Danny* yn gweithio eto oherwydd cyflwr iechyd gwanychol pan gafodd ei atgyfeirio i gael cyngor ariannol. Roedd ganddo ôl-ddyledion treth cyngor, dyledion trethi dŵr ac roedd wedi benthyg arian gan ei deulu. Ei unig incwm oedd £93.40 o fudd-dal analluogrwydd bob wythnos ac roedd £277 o'r arian hwn yn talu ei forgais bob mis.

Cafodd gymorth gan gynghorydd CAB i wneud cais llwyddiannus am lwfans byw i'r anabl. Roedd cael y lwfans hwn yn golygu bod ganddo hawl hefyd i gael cymhorthdal incwm yn cynnwys cymorth gyda'r llog ar ei forgais.

Gall Danny dalu ei brif ddyledion erbyn hyn yn cynnwys taliadau rheolaidd tuag at ei ôl-ddyledion treth cyngor a'i ymrwymiadau parhaus. Hefyd, mae wedi derbyn grant i dalu ei filiau dŵr.

Mewn blwyddyn, llwyddodd y gweithiwr cyngor ariannol i dreblu incwm Danny, gan osgoi'r angen i adfeddiannu ei gartref ac mae wedi lleddfu'r pryder a'r pwysau yr oedd Danny yn ei ddioddef, gan wneud gwelliannau hirdymor i'w sefyllfa ariannol ac i ansawdd ei fywyd. *newidiwyd yr enw.

Dyledion tanwydd yn uwch nac ymholiadau ynglŷn ag ôl-ddyledion morgais

Y llynedd, bu i ganolfannau CAB ddelio â mwy na 100,000 o ymholiadau ynglŷn â dyledion tanwydd. Mae Energy Best Deal, sef partneriaeth rhwng Cyngor ar Bopeth a'r rheoleiddiwr ynni, Ofgem, yn darparu sesiynau addysgol i helpu defnyddwyr i gadw eu biliau ynni mor isel â phosibl drwy:

- ymgysylltu â mwy na 90,000 o ddefnyddwyr ers ei lansio yn 2008
- lansio ymgyrch ar-lein gyda saith ffilm
- cyflenwi ei drydydd cham gydag arian gan EDF Energy ac E.ON.

© Justin Piperger/Cyngor ar Bopeth

“Dim mwy o wario diangen”

Model© Vikram Raghuvanshi/Stockphoto.com

Diolch i gefnogaeth hirsefydlog gan Prudential ccc, mae 75 y cant o ganolfannau bellach yn darparu rhyw lefel o addysg ariannol – cynnydd o 12 y cant ers y llynedd. Dengys gwerthusiadau annibynnol ein bod bellach yn cyrraedd dros chwarter miliwn yn fwy o oedolion agored i niwed bob blwyddyn ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau rheoli ariannol sylfaenol, eu hyder a’u penderfyniadau.

Bu Kalvinder – 33, sy’n briod ac yn fam i blentyn ifanc – ar gwrs chwe wythnos ‘Rheoli eich arian’ yng nghanolfan Cyngor ar Bopeth Hillingdon:

“Dechreuais weithio fel derbynnydd yn fy nghanolfan feddygol leol yn fuan ar ôl gorffen y cwrs am eich bod wedi fy ysgogi a’m hysbrydoli i chwilio am swydd…

Ers y cwrs, rydym wedi agor cyfrif cynilo ac rydym wedi llwyddo i ad-dalu rhai dyledion bach yn cynnwys dau gerdyn credyd a cherdyn siop.

Rydym wedi rhoi’r gorau i ddefnyddio’r cardiau credyd a byddaf ond yn codi arian ar gyfer yr hyn sydd ei angen arnom mewn wythnos. Byddaf ond yn mynd i siopa os bydd angen rhywbeth sydd ar y rhestr – dim mwy o wario diangen. Rydym hefyd yn defnyddio’r ffurflen gyllidebu i weld beth yw ein gwariant wythnosol ac i weld a allwn fforddio rhywbeth neis i’r teulu.

Mae’r holl welliannau ariannol rydym wedi’u gwneud i’n ffordd o fyw wedi digwydd oherwydd y cwrs. Ni allaf ddiolch digon i chi am roi eich amser a’r ymdrech i fy helpu i roi trefn ar ein bywydau.”

Ymgyrchu dros newid

Mae wythdeg y cant o ganolfannau’n cymryd rhan mewn un neu fwy o’n hymgyrchoedd cenedlaethol yn ogystal ag ymgyrchu ar faterion lleol:

- Llwyddodd ymgyrch gan ganolfannau ar draws Llundain i sicrhau bod 18,000 o gartrefi yn sector rhent preifat Llundain i gael naw mis o rybudd cyn y byddai eu lwfans tai lleol yn cael ei gapio. Mae hyn yn rhoi amser i bobl derfynu contractau rhent a chwilio am lety rhatach.
- O ganlyniad i bwysau cyson o bob rhan o’r sector elusennol, cafodd diwygiad lles arfaethedig ei dynnu yn ôl, a fyddai wedi golygu gostyngiad o 10 y cant i fudd-dal tai unrhyw un sydd wedi bod yn hawlio lwfans ceisio gwaith am fwy na 12 mis.
- Bu i ni gyflwyno ein trydedd uwch-gŵyn i’r Swyddfa Masnachu Teg, yn galw am waharddiad ar alwadau diwahoddiad a ffioedd ymlaen llaw gan gwmnïau canfod benthyciadau. Mae ein hadroddiad – Cashing in – yn amlygu’r diflastod a’r caledi y gall yr arferion diegwyddor hyn eu hachosi i 270,000 o bobl y flwyddyn, yn ôl canfyddiadau’r Swyddfa Masnachu Teg
- Roedd ein huwch-gŵyn gynharach ar gam-werthu yswiriant diogelu taliadau (PPI) yn gam hollbwysig i roi terfyn i’r niwed i ddefnyddwyr yn y farchnad hon. Bydd cannoedd ar filoedd o bobl yn cael eu digolledu.
- Mae gorchmynion rhyddhad dyled (sy’n ddewis rhatach i fethdaliad) ar gael i fwy o bobl wrth i bensiynau cymeradwy gael eu hanwybyddu fel asedion erbyn hyn, diolch i’n hymgyrch ar y cyd gydag AdviceUK, Gwasanaeth Cwnsela ar Gredyd Defnyddwyr a’r Sefydliad Cynghorwyr Ariannol (IMA).


I wish to say how fantastic it is to have an organisation like yourself that offer such help like this. I have taken the opportunity to use the template letter you have provided on your website to compose a letter to my local mp highlighting the problems I have experienced within the benefit system over the past year.

Lle gwych i wirfoddoli

Mae cyfanswm o 28,500 o bobl yn gweithio i'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, gyda 21,500 o'r rhain yn rhoi'n hael o'u hamser a'u sgiliau am ddim. Heb ymrwymiad gwirfoddolwyr, byddai'n anodd i'n gwasanaeth fodoli.

Rydym yn sicrhau mai pobl yw'r flaenoriaeth ym mhopeth a wnawn sy'n cynnwys ein gwirfoddolwyr gwych. Rydym yn sicrhau eu bod yn cael yr hyfforddiant a'r cymorth sydd ei angen arnynt i gael y budd gorau o'u hamser gyda ni. Rydym yn falch iawn bod 35 y cant ohonynt yn canfod bod gwirfoddoli yn rhoi'r hyder a'r sgiliau iddynt symud i waith â thâl neu addysg.

Mae ein gwirfoddolwyr yn cyfrannu at bob agwedd o'n gwaith, yn helpu i greu cymdogaethau a gwasanaethau lleol gwell. Mae ein gwirfoddolwyr yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu felly mae ein cleientiaid yn gwybod y byddant yn cael eu trin gyda pharch a dealltwriaeth.

Mae pawb ar eu hennill yn Reading

Gan weithio gyda phartneriaid, mae CAB Reading yn cyflwyno ffordd beilot arloesol o gyrraedd pobl yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae prosiect Bridging the Gap, sy'n cael ei ariannu gan BG Group a v, yn recriwtio gwirfoddolwyr ifanc o grwpiau anodd eu cyrraedd i weithredu fel gwirfoddolwyr gwybodaeth cymunedol. Wedi'u lleoli mewn canolfannau cymunedol a chanolfannau plant lleol, mae'r gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i roi gwybodaeth sylfaenol ar ddyled, budd-daliadau a hawliau lles.

Yn ogystal â sicrhau bod pobl ifanc lleol yn elwa ar y wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael gan eu cyfoedion, gall gwirfoddolwyr ifanc eu hunain weithio tuag at NVQ Lefel 2 mewn 'Rhoi gwybodaeth a chyngor', gan dderbyn cymorth mewnol drwy'r cwrs – sy'n rhoi hwb sylweddol i'w cyflogadwyedd.

Modelau © Alex Sturrock/Cyngor ar Bopeth

£110 miliwn:
cyfradd y farchnad am yr oriau a roddwyd gan ein gwirfoddolwyr

"Mae gwirfoddoli gyda fy nghanolfan CAB leol wedi trawsnewid fy mywyd – mae wedi rhoi hyder, gwybodaeth, ffrindiau, sgiliau, gobaith, iechyd gwell a gwaith â thâl gydag asiantaeth bartner. Byddaf bob amser yn cadw mewn cysylltiad â'r rhwydwaith hollbwysig hwn."
Alex Williams, cynghorydd gwirfoddol, CAB Tonbridge a Malling

Torri cwys

Mode © Flaviolka/SXC

Ar ôl ymroi mwy nac 20 mlynedd o'i bywyd i'w phedwar plentyn, dechreuodd Tracy ystyried ei hopsiynau oherwydd bod ei theulu'n tyfu i fyny. Ar ôl dilyn cwrs 'Gwella cyflogadwyedd drwy wirfoddoli' gyda CAB Bury St Edmonds derbyniodd gynnig gan y tîm MoneyActive i aros gyda hwy fel gwirfoddolwr gweinyddol.

"Rhoddodd hyn hwb i'm hyder a dechreuais ystyried beth y gallwn ei wneud yn yr hirdymor. Cofrestrais ar gwrs trin gwallt yn y coleg lleol – rhywbeth yr oeddwn wedi bod eisiau ei wneud erioed."

Gyda'i hyder newydd llwyddodd Tracy i gael lleoliad mewn siop trin gwallt, a oedd yn hollbwysig ar gyfer ei chwrs a dechreuodd weithio yno ar unwaith. "Mae wedi bod yn wych ac maent hyd yn oed wedi cynnig swydd i mi ar ôl i'r cwrs orffen. Mae'n rhyfeddol – nid wyf wedi dechrau'r cwrs coleg eto!"

"Heb CAB, byddwn yn parhau i fod yn wraig tŷ. Roeddwn yn credu fy mod yn rhy hen i astudio ac roedd y syniad o fynd yn ôl i'r coleg yn un dychrynllyd. Cefais anogaeth gan CAB i gredu ynof fy hun. Yn y ganolfan roeddwn yn teimlo fy mod yn gwneud rhywbeth defnyddiol. Mae'r lle hwn yn wych i wirfoddolwyr ac rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb yma."

Y tîm ymweliadau cartref yn derbyn 'MBE'

Mae darpariaeth cyngor CAB Buckingham Winslow a'r Ardal i bobl sy'n wynebu ynysu gwledig wedi ennill Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol – yr MBE ar gyfer grwpiau o wirfoddolwyr sy'n gweithio yn eu cymuned leol er budd eraill. Mae'r gwasanaeth yn hollbwysig i bobl na allant deithio i'r canolfannau.

Creu hyder ariannol

Gwirfoddolwyr MoneyActive yn cynnal sesiwn rhagflas i Aelodau Seneddol

Mae ein prosiect MoneyActive, sy'n cael ei gefnogi gan Gymdeithas Adeiladu Nationwide, yn hyfforddi gwirfoddolwyr i gyflenwi addysg ariannol i unigolion a gweithwyr rheng flaen. Mae'n helpu pobl i gyllidebu, benthyca a chynilo'n hyderus, ac osgoi dyledion na allant eu rheoli.

Yn 2010/11:

- cafodd 568 o wirfoddolwyr eu recriwtio.
- bu 470 o sefydliadau partner yn gweithio gyda ni.
- cafodd 23,000 o bobl eu hyfforddi.
- cyrhaeddwyd tua 60,000 o bobl drwy wybodaeth wedi'i rhaeadru.

Yn dilyn hyfforddiant, roedd 70 y cant yn teimlo'n hyderus i reoli eu harian, o gymharu â 34 y cant cyn yr hyfforddiant.

"Mae'r gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn frand uchel ei barch sy'n cael ei wasanaethu gan rwydwaith o wirfoddolwyr y mae pobl yn ymddiried yn fawr ynddynt. Mewn nifer o ffyrdd, hwy yw un o'r esiamplau gorau o'r Gymdeithas Fawr ar waith."
Edward Davey, y Gweinidog dros Gysylltiadau Cyflogaeth, Defnyddwyr a Materion Post

Yn Gryfach gyda'n Gilydd

Mae cydweithio gyda nifer o bartneriaid gwahanol – o'r sector cyngor ehangach, y byd corfforaethol, gydag elusennau a llywodraeth leol a chenedlaethol – yn ein galluogi i gyrraedd mwy o grwpiau o gleientiaid nag y gallwn ei wneud ein hunain. Mae hyn yn amlwg yn fanteisiol i ni a'n partneriaid wrth i ni ddefnyddio arbenigedd, enw da a chyrhaeddiad ein gilydd. Y peth pwysicaf yw sicrhau canlyniadau hapus ychwanegol i fwy o bobl.

"Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth Southwark yn cynnig rhwyd diogelwch pwysig i drigolion sy'n wynebu nifer o broblemau. Mae'r ganolfan yn ein helpu i gadw mewn cysylltiad â chymunedau drwy rannu gwybodaeth am y problemau hyn. Rydym yn canfod ffyrdd i wella sefyllfaoedd drwy ddatblygu atebion lleol."
Y Cynghorydd Abdul Mohammed, Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu â'r Gymuned, Cyngor Southwark

Gyda chymorth Prudential, lansiwyd ein canllawiau ar gyfer Aelodau Seneddol a Chynghorwyr ynglŷn â'r cymorth y gallwn ei roi iddynt.



Atgyfnerthu Seneddwyr

"Er yr anrhydedd o gael bod yn Seneddwr y Flwyddyn 2010 Cyngor ar Bopeth, mae'n rhaid rhoi'r diolch i'r tîm Cyngor ar Bopeth ac, yn arbennig, yr ymgyrchydd diflino, Liz Phelps.

Pan gyflwynwyd y Mesur Adfeddiannau Morgeisi (Hawliau Tenantiaid) gennyf drwy Dŷ'r Arglwyddi y llynedd, cefais gefnogaeth ac arbenigedd drwy'r broses gyfan gan Gyngor ar Bopeth.

Mae Cyngor ar Bopeth bob amser yn atgyfnerthu Seneddwyr gyda thair elfen arbennig: yn gyntaf, ei enw da cenedlaethol sy'n ychwanegu awdurdod sylweddol i achos; yn ail, ei ddata unigryw gan ganolfannau lleol; ac yn drydydd, arbenigedd a dycnwch ei staff gwych, a ddangoswyd gan Liz – a hoffwn ddiolch o waelod calon iddi a dymuno'r gorau iddi ar ei hymddeoliad."

Richard Best OBE

Liz Phelps, Swyddog Polisi Cymdeithasol Cyngor ar Bopeth, a ymddeolodd ym mis Mai 2011 ar ôl 23 mlynedd o wasanaeth.

Ehangu Gorwelion rhieni unigol

Mae'r rhaglen Horizons yn bartneriaeth sy'n cael ei hariannu gan Barclaycard rhwng Cyngor ar Bopeth, Gingerbread, Family Action a One Parent Families Scotland, sy'n helpu rhieni unigol a'u plant i edrych ymlaen at ddyfodol gwell. Gyda chymorth a chyngor ar arian, gwaith ac addysg, mae'r prosiect wedi llwyddo i helpu 450,000 o rieni unigol ers 2005, yn cynnwys tua 196,500 o fuddiolwyr yn ystod 2010/11.

Horizons yn ennill y categori partneriaeth gorfforaethol, yng Ngwobrau Rhagoriaeth y Trydydd Sector, 2010

Pŵer partneriaeth yn helpu pobl sy'n agored iawn i niwed

Mewn partneriaeth â'r Lleng Brydeinig Frenhinol a Chronfa Les yr Awyrlu, bu gweithwyr achos Cyngor ar Bopeth yn darparu Gwasanaeth Cyngor arbenigol ar Fudd-daliadau ac Arian (BMAS) i fwy na 8,600 o aelodau a chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u dibynyddion. Cafodd mwy na £22.7 miliwn o ddyled ei ddileu a sicrhawyd £7.5 miliwn mewn grantiau elusennol a budd-daliadau lles.

Cafodd Nadine, mam dau blentyn ifanc o dan bump oed, ei hatgyfeirio ar frys i'r gwasanaeth pan laddwyd ei gŵr mewn damwain ffordd. Roedd ei gŵr wedi gwasanaethu gyda'r Morlu tan fis Mawrth 2010, ar ôl bod yn gwasanaethu yn Afghanistan, ac roedd yn hunangyflogedig pan ddigwyddodd y ddamwain, saith mis yn ddiweddarach.

Nid oedd gan Nadine unrhyw incwm na rhwydwaith cymorth, roedd ganddi ddyledion rhent ac roedd hefyd yn atebol i dalu rhent ar eiddo busnes ei gŵr. Cafodd gymorth gan Tony, gweithiwr achos Cyngor ar Bopeth, i hawlio cyfanswm o £31,679 o fudd-daliadau a grantiau, yn ogystal â threfnu gwyliau Legion Poppy Break i helpu'r teulu ddygymod â'u colled a dechrau ailadeiladu eu bywydau.

"Nid wyf yn gwybod beth fyddai wedi digwydd i ni fel teulu, oni bai am help y Lleng a Tony. Ni allaf esbonio pa mor ddiolchgar yr wyf, yn arbennig i Tony. Roedd yn wych a rhoddodd flaenoriaeth i ni ac ni fyddaf byth yn anghofio hynny."

Awdurdodau lleol, cwmnïau a chanolfannau Cyngor ar Bopeth – cydweithio'n well gyda'i gilydd

Mae gan gyngor Southwark un o'r cyfraddau gwaethaf ym Mhrydain am gasglu'r dreth gyngor gyda dyledion o £23 miliwn heb eu casglu. Mewn partneriaeth â'r cwmni cyfreithiol DLA Piper a Gwasanaethau Refeniw Cyngor Southwark bu Cyngor ar Bopeth Southwark yn cynnal sesiynau cyngor misol i drigolion a oedd yn cael anhawster i dalu'r dreth. Cafodd 20 o wirfoddolwyr o DLA Piper hyfforddiant gan y prosiect peilot mewn rheoliadau treth cyngor a budd-daliadau. Mae mwy na 150 o bobl wedi derbyn help gyda dyledion treth gyngor, gan greu cyfanswm o fwy na £300,000. Mae hyn nid yn unig yn osgoi camau cyfreithiol costus, ond gellir gwario'r arian hefyd ar wasanaethau lleol hollbwysig sy'n fuddiol i bawb.

Cyswllt ag ysgol gyfreithiol yn sicrhau buddiannau i bawb

Fran Targett, Cyfarwyddwr Cyngor ar Bopeth Cymru; Erika Helps; Paul Davies, Cyfarwyddwr, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yng Nghymru

Enillodd Erika Helps, Prif Weithredwr CAB Rhondda Cynon Taf, Fedal Canghellor Prifysgol Morgannwg fel cydnabyddiaeth o'i chyfraniad i gynllun lleoliad myfyrwyr y gyfraith.

"Mae'r ganolfan yn elwa o gael gwirfoddolwyr ychwanegol, yn cynnwys y Pennaeth Cyswllt, Richard Owens, sy'n defnyddio ei rôl fel cynghorydd cyflogaeth yn ei ddarlithoedd hefyd. Mae'r fenter yn fuddiol i'n cleientiaid ni, i'r brifysgol a'i myfyrwyr."

Ers hyn, mae nifer o fyfyrwyr wedi sicrhau cyflogaeth gyda Chyngor ar Bopeth ac mae un wedi sicrhau cefnogaeth ar gyfer gwasanaeth cyngor pro bono gan ei chyflogwyr newydd yn y sector preifat.

Cefnogi cymunedau lleol

Mae ein gwybodaeth am y problemau y mae pobl yn eu hwynebu yn golygu y gallwn adnabod problemau cyffredin sy'n codi'n aml a defnyddio ein tystiolaeth i ysgogi newidiadau i bolisïau ac arferion ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'n golygu y gall ein gwasanaeth ymateb yn gyflym, naill ai drwy agor lleoliadau ychwanegol arloesol i gynnig cyngor neu gyfrannu at bolisïau lleol. Mae llunwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau, megis awdurdodau lleol, yn cydnabod gwerth ein data yn y gwaith o gynllunio'r gwasanaethau mwyaf priodol.

"Rwy'n cydnabod gallu unigryw CAB i gefnogi pobl yn ein cymuned a mynd i'r afael â thlodi yn yr ardal. Roedd y gwasanaeth yn rhan allweddol o ymateb y cyngor i'r dirwasgiad, ac rydym yn ymddiried yn eu barn ar y ffyrdd gorau o helpu ein cymuned."
Y Cynghorydd Janet Battye, Arweinydd y Cyngor, Cyngor Calderdale

Pŵer gweithredu lleol yn cadw llysoedd ar agor

Gyda mwy na 140 o lysoedd ynadon a llysoedd sirol yn wynebu cael eu cau, bu'r gwasanaeth CAB yn ymgyrchu'n galed i sicrhau bod darpariaeth ddigonol yn parhau i gael ei darparu yn eu cymunedau – gan arbed amser a chostau teithio sylweddol i ddefnyddwyr y llysoedd.

Cafwyd cyfraniad hollbwysig gan ganolfan CAB Barnsley i atal ei llys lleol rhag cael ei symud i Sheffield, 15 milltir i ffwrdd. Derbyniodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y ddadl y byddai'n bosibl addasu llys ynadon Barnsley i gynnwys swyddogaethau llys sirol.

Ymgyrchodd CAB Gorllewin Berkshire yn llwyddiannus yn erbyn y bwriad i gau llys ynadon a llys sirol Newbury.

"Hoffwn dalu teyrnged i'r ffordd synhwyrol a phwyllog y cynhaliwyd yr ymgyrch hwn gan yr ynadon, Cyngor ar Bopeth, yr heddlu, yr awdurdod lleol ac eraill.others fought this campaign." Richard Benyon, AS Newbury

Bu CAB Ynys Môn yn dathlu ar ôl clywed y byddai Llys Sirol Llangefni yn cael ei achub – yr unig un o'r pum llys sirol yng Nghymru a gynigiwyd i gael eu cau. Soniwyd am gyflwyniad manwl y ganolfan dair gwaith ym mhapur ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

© MashCyngor ar Bopeth

Ysbryd cymunedol yn darparu cyngor

Wrth i ganol trefi frwydro i ffynnu, mae canolfannau CAB mewn sefyllfa unigryw i ddarparu gwasanaethau cyngor hollbwysig yn agosach fyth at bobl.

Gan ymateb i giwiau mwy a phryderon ynglŷn â'r anawsterau sy'n gysylltiedig â hyn i rai grwpiau cleient, penderfynodd canolfannau yn Crawley a Bryste i fanteisio ar siopau gwag a sefydlu canolfannau cyngor amlddisgyblaeth.

Mae cyfranogiad sefydliadau partner megis Age UK, Relate a Shelter, yn galluogi i ddewis eang o wasanaethau gael eu cynnig ochr yn ochr â darpariaeth canolfannau CAB a'r cyngor. Gall ymwelwyr gael cyngor, agor cyfrif undeb credyd a chael gwybodaeth am gyfleoedd swyddi a gwirfoddoli mewn un lleoliad. Mae'r amgylchedd gwell hwn, sy'n cynnwys darpariaeth cyfrifiaduron i'r cyhoedd, wedi cynyddu nifer y cleientiaid sy'n cael eu gweld. Yn ystod 2010/11 cafodd yn agos at 2,000 o gleientiaid wasanaeth gan Siop Gyngor Crawley, gyda data gan sefydliadau partner megis Swyddog Hyrwyddo Budd-daliadau'r Cyngor yn gweld cynnydd o 20 y cant yn nifer y bobl a welwyd.

Gydag ymdrechion gwirioneddol gan y gymuned, ni fyddai'r mentrau hyn wedi bod yn bosibl heb haelioni a chefnogaeth Cyngor Sir Bryste, Cyngor Bwrdeistref Crawley, canolfan siopa County Mall a sefydliadau partner eraill.

Derbyniodd 507,749 o bobl ychwanegol gyngor yn ystod oriau estynedig

Gydag arian wedi'i sicrhau am yr ail flwyddyn, ymatebodd tua 72 y cant o ganolfannau CAB ar hyd a lled Cymru a Lloegr i alw lleol iddynt ymestyn eu horiau agor.

Yn ystod oes prosiect 'Oriau cyngor ychwanegol' a ariannwyd gan lywodraeth y DU (Chwefror 2009–Mawrth 2011):

- cafodd 5,000 o wirfoddolwyr eu recriwtio a'u hyfforddi, ac mae tua 3,500 o'r rhain wedi'u cadw ar gyfer mentrau eraill.
- dosbarthwyd tua 1.4 miliwn o daflenni hunangymorth. Mae'r gyfres o wyth cyhoeddiad yn cynnwys Help yourself if you're 16 or 17 wedi ennill gwobr Plain English.
- cofnodwyd cyfanswm o 38,000 o ganlyniadau, sy'n cynrychioli tua £84 miliwn i'n cleientiaid o fuddsoddiad cychwynnol o £15.3 miliwn.

Diogelu tenantiaethau, arbed costau

Bu CAB Sir Caerffili yn parhau i gynnal cymorthfeydd ar draws y fwrdeistref mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol. Mae'r sesiynau hyn yn darparu cyngor hollbwysig ar ddyled ac arian i denantiaid y cyngor, gan arbed costau diangen i'r cyngor a'r llysoedd.

Sicrhawyd bod saith deg y cant o denantiaid sy'n derbyn cyngor gan CAB wedi parhau i dalu eu taliadau, gan osgoi achosion llys costus sy'n achosi straen. Mae Cyngor Caerffili yn amcangyfrif bod cost methiant un denantiaeth yn fwy na £5,000.

Staff y ganolfan CAB a staff y cyngor yn derbyn eu gwobr IMA, 2011: Rownd derfynol – categori partneriaeth orau

Estyn allan

Mae Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn ganolbwynt i'r cymunedau maent yn eu cynorthwyo. Ond nid dim ond ar y stryd fawr mae ein canolfannau; rydym yn cyflenwi gwasanaethau cyngor o fwy na 3,500 o leoliadau cymunedol ar hyd a lled Cymru a Lloegr – mwy o leoliadau na'r ddwy brif archfarchnad gyda'i gilydd. Rydym yn mynd lle mae pobl ein hangen fwyaf – dyna pam y byddwch yn gweld gwasanaethau CAB mewn lleoliadau iechyd, carchardai, canolfannau plant a llysoedd. Ac rydym yn gwneud yn siŵr y gall pobl gael y cyngor yn y ffordd fwyaf addas iddynt hwy

Dros y ffôn

Ers ei lansio ym mis Gorffennaf 2010, mae Llinell Gyngor Cymru – ein gwasanaeth ffôn cenedlaethol yng Nghymru – eisoes wedi cynyddu nifer y galwadau sy'n cael eu hateb o 34 y cant. Hefyd, mae 74 y cant o alwyr unigryw yn derbyn cymorth erbyn hyn.

Bydd arian gan Royal Bank of Scotland yn ein galluogi i sefydlu pedair canolfan galwadau, gan gynyddu capasiti.

"Rwyf yn ddiolchgar iawn iddi am ei dealltwriaeth a'i heffeithlonrwydd. Ni allaf gyfleu ei gallu i ddelio â'r alwad, ond roedd lefel y gwasanaeth yn rhagori ar unrhyw beth yr oeddwn wedi'i ddisgwyl. Diolch yn fawr iawn i'r wraig hyfryd ym Mhowys."
Defnyddiwr y Llinell Gyngor

Drwy gyswllt fideo

Mae'r prosiect 'cyngor integredig ar ddyled' wedi helpu 4,592 o gleientiaid i ddelio â gwerth £40.6 miliwn o ddyled. Wedi'i ariannu gan Northern Rock Foundation, mae gweithwyr achos wyneb yn wyneb, llinell ffôn benodol a gwasanaeth cyswllt fideo wedi gwella'r gwasanaeth darparu cyngor am ddim ar ddyledion yn Cumbria a Gogledd Ddwyrain Lloegr. Mae hyn yn helpu pobl sydd wedi'u heithrio'n ariannol sy'n byw mewn cymunedau gwledig i gael yr help sydd ei angen arnynt heb orfod poeni am deithiau hir a drud.

"Hawdd ac ymarferol iawn. Cyngor gwych."
Defnyddiwr y cyswllt fideo

Model © Alex Sturrock/Cyngor ar Bopeth

Ar-lein

Yn ystod 2010/11 derbyniodd ein gwefan hunangymorth Adviceguide yn agos at 14.2 miliwn o ymweliadau i'w hafan – 35 y cant yn uwch na 2009/2010. Hefyd, datblygwyd

- micro safle **www.advice4me.org.uk** sydd wedi'i anelu'n benodol ar gyfer pobl ifanc.
- pum ffilm yn rhoi cyngor yn laith Arwyddion Prydain (BSL)
- podiau cyngor y gellir eu llwytho i lawr i ffonau symudol a chwaraewyr MP3
- ein cyfrif Twitter, gan gynyddu nifer ein dilynwyr o fwy na 1,000 i fwy na 6,000 a chyngor a thrydar cyngor, yn ogystal ag annog cyfranogiad mewn ymgyrchoedd a gwirfoddoli.

Parhau pan fydd prosiectau eraill yn dod i ben

Modelau © Image Source Ltd

Mae CAB Ysbytai Cyfunol Salford yn sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty.

Mae Abbie* yn naw oed ac mae'n gofalu am ei mam Laura*, sydd â sglerosis ymledol, a'i dau frawd iau. Yn aml, nid yw Laura, sy'n defnyddio cadair olwyn, yn gallu codi o'i gwely oherwydd y boen.

Bygythiwyd achos llys yn erbyn Laura oherwydd absenoldeb Abbie o'r ysgol, a chodwyd materion amddiffyn plant gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Trefnodd y cynghorydd ofal cymunedol ac asesiadau plentyn mewn angen a arweiniodd at gynnig cyllideb bersonoli o £12,500 y flwyddyn i Laura. Mae bellach yn cyflogi cynorthwyydd personol ar gyfer anghenion gofal arferol ac mae'n mynychu coleg hyfforddi athrawon. Gyda chymorth gan fentor plentyn sy'n ofalwr, mae Abbie wedi llwyddo i fynychu'r ysgol am 12 mis heb unrhyw absenoldebau.

*Newidiwyd yr enwau.

Rhagnodi cyngor

Sicrhaodd canolfan CAB Swydd Lincoln gyfanswm o £4.7 miliwn ar gyfer cleientiaid anodd eu cyrraedd mewn budd-daliadau anabledd blynyddol, gan roi enillion o £12.88 am bob £1 a fuddsoddwyd gan Raglen Cadw'n Iach Swydd Lincoln. Derbyniodd cyfanswm o 2,429 o bobl gyngor gan weithwyr achos y prosiect gyda meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn atgyfeirio pobl fel rhan o'r prosiect 'Advice on prescription'.

Dengys holiaduron adborth a gwblhawyd gan 614 o gleientiaid bod

- 68 y cant yn credu bod eu hiechyd a'u hymdeimlad o les wedi gwella
- 92 y cant yn well eu byd yn ariannol
- 93 y cant yn credu y byddai'r gwasanaeth yn eu helpu i barhau i fyw'n annibynnol.

"Mae eich help wedi ein galluogi i gael bywyd gwell yn emosiynol ac yn ariannol. Ni fyddem wedi gallu cyflawni hyn heb eich cymorth chi."
Cleient

Lleihau pryder

Mae cyngor mewn meddygfeydd meddygon teulu wedi lleihau'n sylweddol nifer yr apwyntiadau meddygon teulu a phresgripsiynau ar gyfer cyffuriau cwsg a chyffuriau gwrth-bryder. Roedd hyn yn ganlyniad i werthusiad o brosiect allgymorth iechyd CAB Sefton, gan yr ariannwr, Sefton PCT. Casglwyd data ar y defnydd o wasanaethau iechyd gan 148 o gleifion o chwe phractis yn ystod dau gam; chwe mis cyn a chwe mis ar ôl eu hapwyntiad cyntaf gyda'r ganolfan CAB.

Canfu gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Ysgol Economeg Llundain ar gyfer yr Adran Iechyd bod cyngor wyneb yn wyneb ar ddyled yn ymyrraeth gost effeithiol sy'n atal gorbryder ac iselder gan sicrhau enillion o £3.55 am bob £1 a fuddsoddwyd.

Pwy bynnag yr ydych chi, beth bynnag yw'r broblem

Yn y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth, mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, herio achosion o wahaniaethu a sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i bawb yn sail i bopeth a wnawn. Mae pymtheg y cant o'n cleientiaid yn dod o gymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a dywedodd 31 y cant ohonynt eu bod yn anabl neu bod ganddynt gyflwr iechyd hirdymor.

"Ni allwn gredu bod yna bobl gydag agwedd mor ddiduedd sy'n helpu pobl eraill waeth beth yw eu cefndir, rôl mewn cymdeithas, cenedligrwydd, rhyw neu gredoau diwylliannol. Ni fyddaf byth yn anghofio'r ffordd y gwnaethoch fy helpu… Roedd y ffordd y gwnaethoch ymyrryd yn y sefyllfa yn wych… Un diwrnod rwyf am fod yn wirfoddolwr a gwneud cyfraniad i'r gwasanaeth drwy helpu'r rhai heb lais." **Client**

1,778

o bobl anabl wedi derbyn cyngor ar ddyled fel rhan o brosiect anabledd y Gronfa Cynhwysiant Ariannol

I mi, i chi, i bawb – y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Rydym yma nid yn unig i helpu pobl ddatrys eu problemau, ond hefyd i sicrhau bod cyflogwyr a darparwyr gwasanaeth yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol a'u bod yn cydymffurfio â hwy. A bod pobl yn gwybod beth yw eu hawliau a'u bod yn gallu eu gorfodi.

Fis Hydref y llynedd, daeth y Ddeddf Gydraddoldeb hirddisgwyliedig i rym ar draws Prydain Fawr. O'r cychwyn cyntaf, bu Cyngor ar Bopeth yn hyrwyddo'r angen i gael y Ddeddf a bu'n ymgyrchu'n ddiwyd iddi fod mor gynhwysol a phellgyrhaeddol â phosibl.

Mewn partneriaeth â Swyddfa Gydraddoldeb y Llywodraeth, fe wnaethom gynhyrchu deunyddiau codi ymwybyddiaeth, yn cynnwys fideo yn laith Arwyddion Prydain. Yn ogystal â darparu ffynonellau gwybodaeth cyfredol, fe wnaethom ddarparu hyfforddiant i oruchwylwyr sesiynau cyngor a chanllawiau ar ddefnyddio Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yng nghyd-destun y toriadau i'r sector cyhoeddus. Mae'r PSED yn rhoi cyfrifoldebau cyfreithiol i awdurdodau cyhoeddus i ddangos eu bod yn gweithredu ar gydraddoldeb wrth lunio polisïau, cyflenwi gwasanaethau a chyflogi yn y sector cyhoeddus.

Achub prosiect iechyd meddwl

Llwyddodd CAB Epsom ac Ewell i herio penderfyniad i dynnu arian yn ôl o'i wasanaeth allgymorth iechyd meddwl gan ddefnyddio Asesiad Effaith Cydraddoldeb GIG Surrey.

Amcangyfrifodd y ganolfan CAB y byddai hyn yn cael effaith andwyol ar tua 140 o gleientiaid agored i niwed bob blwyddyn. Oherwydd eu salwch meddwl difrifol, ni all y cleientiaid ddefnyddio gwasanaethau CAB yn y ffordd arferol ac mae angen iddynt gael eu hebrwng neu bydd angen ymweld â hwy yn eu cartref neu yn yr ysbyty.

Oherwydd ei natur ataliol, mae gwaith achos CAB yn lleihau'r defnydd a wneir o adnoddau'r GIG. Mae arolygon cleientiaid yn dangos bod yn agos at 80 y cant o gleientiaid wedi crybwyll llai o orbryder o ganlyniad i ymyrraeth CAB.

"Heb eich gwasanaethau, gallwn fod wedi ceisio lladd fy hun. Diolch i chi." **Cleient**

Herio gwahaniaethu

Model© Justin Piperger/Cyngor ar Bopeth

Yn ystod 2010/11 bu i ganolfannau Cyngor ar Bopeth ar hyd a lled Cymru a Lloegr ddelio â 21,700 o ymholiadau yn ymwneud â gwahaniaethu – roedd 80 y cant o'r rhain yn gysylltiedig â chyflogaeth.

Mae Stephen* yn ddyn du Prydeinig yn ei 30au. Pan ddechreuodd mewn swydd newydd dechreuodd dyn yr oedd yn delio ag ef ymddwyn mewn ffordd anghyfeillgar a beirniadol iawn o'i berfformiad, roedd yn anodd ganddo gredu ei fod yn cael ei drin fel hyn am ei fod yn ddu.

Gwnaeth gŵyn i'w reolwr llinell a ddywedodd wrtho am 'anghofio am y peth a pharhau â'i waith'. Pan aeth â'r mater ymhellach, diystyriwyd ei bryderon a dywedwyd wrtho 'nad oedd unrhyw niwed wedi'i wneud'. Ond roedd niwed wedi'i wneud oherwydd cafodd Stephen waeledd nerfol a bu'n dioddef o iselder clinigol.

Cafodd Stephen gymorth gan CAB Stevenage i gyflwyno pum cais unigol o aflonyddwch hiliol a gwahaniaethu uniongyrchol ar sail hil yn erbyn ei reolwr llinell, y cyflogwr a'r cleient. Cafodd yr achos ei setlo yn y pen draw am £18,000.

Gall Stephen ddechrau ei adferiad o'i iselder – teimlai na allai fod wedi rheoli ei achos heb gymorth y ganolfan CAB.

*Newidiwyd yr enw.

Buddugoliaeth cod post

Roedd trigolion safle Sipsiwn a Theithwyr yn cael anawsterau i drefnu yswiriant a gwasanaethau eraill pan oedd y disgrifiad cod post yn datgan 'Safle Teithwyr Heol Oxney'. Llwyddodd CAB Peterborough i argyhoeddi'r cyngor lleol drwy fforwm Teithwyr i newid enw'r safle.

Chwalu'r rhwystr ieithyddol

Mae gwirfoddolwyr o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael eu recriwtio'n benodol ar gyfer eu sgiliau ieithyddol ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae Cyngor ar Bopeth Wealdon wedi hyfforddi 12 o wirfoddolwyr i gynnal cyfweliadau cychwynnol gyda chleientiaid agored i niwed a fyddai wedi cael anhawster fel arall i gael cyngor y maent yn ei ddeall.

Meddai Tiga-Rose Nercessian o Gyngor Sir Dwyrain Sussex, sy'n ariannu'r prosiect:

"Mae'r prosiect hwn yn ffordd wych i bobl sy'n byw yn ardal wledig Wealden sy'n siarad ieithoedd cymunedol ddatblygu sgiliau newydd a sgiliau sydd ganddynt eisoes a chefnogi eu cymunedau."

Gwirfoddolwyr CAB Wealden yn cwrdd â'n Noddwr .Ch–Dd: Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Frenhinol, Jacek Bartolsewicz, Chelsea Kemp, Katarina Bloodworth, Guiqui Mithchell-Zhong

Y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yw'r elusen sydd ar frig Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall ac mae'r gwasanaeth yn rhif 21 yn y 100 Cyflogwr Uchaf ar gyfer pobl Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol – sef 67 rhif yn uwch na'r llynedd.

Ychwanegu Gwerth

Mae Cyngor ar Bopeth a'i 382 o aelod-ganolfannau yn elusennau cofrestredig sy'n dibynnu ar arian o nifer o ffynonellau. Mae'r hinsawdd bresennol o doriadau ac ansicrwydd ariannol yn fygythiadau difrifol i'r sector cyngor.

Credwn fod cael gwared ar wasanaethau cyngor hollbwysig yn economi ffug oherwydd heb fynediad cynnar i wasanaethau cyngor, mae problemau pobl yn gwaethygu. Bydd mwy o dlodi, dyledion, digartrefedd ac iechyd gwael yn costio llawer mwy i'r wladwriaeth eu hunioni.

"Rwyf yn ddiolchgar iawn am y cymorth a dderbyniais i gael fy hawliau. Peidiwch â diflannu – rydych yn gwneud gwaith gwych ac rydym eich angen. Rydych yn helpu pobl i roi trefn ar eu bywydau ac rydym yn eich gwerthfawrogi'n fawr iawn!" **Cleient**

Mynd i'r afael â gor-ddyled



Model © Rebecca Savage/Cyngor ar Bopeth

"Mae'n debyg mai Cyngor ar Bopeth yw'r sefydliad gorau yn ein gwlad i helpu pobl â dyled…" **David Cameron, Prif Weinidog y DU, Gorffennaf 2011**

Dyled unwaith eto yw'r prif fater y rhoddir cyngor arno yn ein canolfannau, gan gynrychioli un o bob tri o ymholiadau. Yn 2010/11 bu canolfannau CAB yn delio â thua 2.3 miliwn o broblemau dyled.

Mae Cyngor ar Bopeth yn rheoli 11 o 16 prosiect rheoli dyled y Gronfa Cynhwysiant Ariannol. Drwy recriwtio a hyfforddi 338 o gynghorwyr ychwanegol, mae Cyngor ar Bopeth a'i bartneriaid ar hyd a lled Cymru a Lloegr wedi gallu ehangu eu gwasanaethau cyngor wyneb yn wyneb ar ddyled, sydd am ddim, a helpu yn agos at 300,000 o gleientiaid i ddatrys eu problemau dyled dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Nid oedd saithdeg a phump y cant o'r holl gleientiaid a gafodd eu gweld gan ganolfannau CAB fel rhan o'r prosiect hwn wedi ceisio cyngor ar ddyled cyn hynny, sy'n dangos gallu canolfannau CAB ac asiantaethau cyngor cymunedol lleol i ymgysylltu ag unigolion sydd wedi'u heithrio'n ariannol:

- cafodd 71,467 o gleientiaid eu gweld.
- nid oedd gan 86 y cant o gleientiaid unrhyw gynilion ac roedd gan 55 y cant incwm blynyddol a oedd yn llai na £14,500.
- roedd 17 y cant o'r holl ddyledion yn ddyledion blaenoriaeth ac roedd gan 46 y cant o'r holl gleientiaid ddyledion blaenoriaeth yr oedd angen cymorth arnynt i'w rheoli.

Achub cyfiawnder

Rydym yn amcangyfrif* am bob £1 sy'n cael ei wario ar gymorth cyfreithiol, gallai'r wladwriaeth arbed:

- £2.34 drwy gyngor tai
- £2.98 drwy gyngor ar ddyled
- £8.80 drwy gyngor ar fudd-daliadau
- £7.13 drwy gyngor cyflogaeth.

**Tuag at achos busnes ar gyfer cymorth cyfreithiol,* Cyngor ar Bopeth 2010

Fel mam sengl, roedd Chloe* yn poeni am ddychwelyd i weithio ar ôl ei chyfnod mamolaeth oherwydd bod ei chais i ddychwelyd i'r gwaith dri diwrnod yr wythnos wedi'i wrthod. Nid oedd yn credu y gallai ddychwelyd i weithio'n llawn amser, oherwydd costau gofal plant, ond nid oedd am ymddiswyddo a byw ar fudd-daliadau.

Cafodd gyngor gan y ganolfan CAB ar y Rheoliadau Gweithio Hyblyg a help i ddilyn y prosesau ffurfiol a llwyddodd i drafod cytundeb dychwelyd i'r gwaith yn rhan amser.

Ariannwyd y cynghorydd CAB drwy gymorth cyfreithiol na fyddai ar gael ar gyfer achosion lles cymdeithasol fel hyn o dan y cynigion presennol. Gallai'r cynigion effeithio ar hyd at 126,000 o gleientiaid CAB dros flwyddyn drwy golli mwy na 300 o gynghorwyr arbenigol o ganolfannau sy'n cael eu hariannu drwy gymorth cyfreithiol.

Mae Cyngor ar Bopeth yn gwneud cyfraniad blaenllaw yn Cyfiawnder i Bawb – yr ymgyrch dros gymorth cyfreithiol am ddim. Ers ei lansio ym mis Ionawr 2011, mae mwy na 3,000 o sefydliadau cyngor a chyfreithiol, elusennau, undebau llafur, grwpiau cymunedol, gwleidyddion a'r cyhoedd wedi ymuno â'r ymgyrch.
www.justice-for-all.org.uk

*Newidiwyd yr enw.

Mae £1 sy'n cael ei wario ar wirfoddolwyr carcharorion yn rhoi enillion o £56.48

Modelau © ID 8 photo

Mae Canolfan Gyfreithiol a Chyngor ar Bopeth Derby yn darparu hyfforddiant a phrofiad gwaith i tua 32 o garcharorion y flwyddyn o garchar agored Sudbury. Mae'r ganolfan yn elwa ar gyfraniad gwirfoddolwyr ychwanegol ac mae'r carcharorion yn gwella eu cyflogadwyedd, gan leihau'r risg o ail-droseddu. Mae adroddiad tystiolaeth Papur Gwyrdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Breaking the Cycle (Rhagfyr 2010) yn cyfeirio at astudiaethau sy'n dangos y cyswllt rhwng cyflogaeth a llai o achosion o ail-droseddu. Mae hyn yn arbed arian i'r wladwriaeth yn nhermau'r gost o gynnal a chadw carcharorion ac mae cyfraddau diweithdra is yn golygu bod llai i'w dalu mewn budd-daliadau lles.

Newid agwedd

Mae prosiect Gallu Ariannol Dwyrain Lloegr wedi darparu hyfforddiant gallu ariannol i 633 o bobl ddi-waith a 161 o weithwyr rheng flaen. Cyflwynwyd y prosiect gan gonsortiwm o ddarparwyr lleol, ac roedd eu hanner yn ganolfannau CAB.

Dangosodd arolwg ar ddiwedd y prosiect o 108 o gyfranogwyr bod 90 y cant ohonynt eisoes wedi gweithredu i wella eu sefyllfa ariannol. Cyllidebu oedd y cam gweithredu mwyaf poblogaidd. Roedd gwerthusiad annibynnol yn amcangyfrif y byddai un o bob pump o gyfranogwyr £5,000 yn well eu byd, gan roi enillion o £4.50 am bob £1 sy'n cael ei wario ar hyfforddiant gan ychwanegu yn agos at £1.2 miliwn i'r economi ranbarthol.

"Mae gennyf wybodaeth y gallaf ei hailddarllen a'r dulliau i newid fy arferion gwario a chynilo."
Cyfranogwr yn yr hyfforddiant

Ciplun o ganlyniadau ein cyngor

Mae gwybod faint o bobl sydd wedi derbyn cyngor gennym yn un peth, ond beth am y gwahaniaeth y mae'r cyngor hwnnw'n ei wneud i fywydau pobl? Ym mis Ionawr 2011 cymerwyd ciplun o ganlyniadau i gyfran sylweddol o'r 7.1 miliwn o ymholiadau a agorwyd yn ystod 2009/10, gan ganiatáu amser digonol i nifer o'r problemau gael eu datrys.

Mae'r canlyniadau hyn yn canolbwyntio ar yr incwm a sicrhawyd, y digartrefedd a rwystrwyd a'r dyledion a ddilëwyd. Drwy wella sefyllfa ariannol cartref gwyddom y gallwn godi safonau byw a helpu i leihau tlodi. Gellir lleihau rhai costau digartrefedd neu gostau digartrefedd cyfan drwy ymyrraeth gynnar.

Gall dyled na ellir ei rheoli effeithio ar sawl agwedd ar fywyd unigolyn, yn cynnwys perthnasau, cyflogaeth, iechyd ac addysg. Mae cyngor ar ddyled yn helpu pobl i ddeall eu sefyllfa ariannol bersonol, sy'n eu galluogi i ddelio â'u sefyllfa bresennol ac unrhyw broblemau yn y dyfodol.

Mae parhau i fesur ein canlyniadau dros amser yn golygu bod gennym ddealltwriaeth well o effaith ein cyngor ar fywydau pobl, sy'n ein helpu i ddatblygu ein gwasanaethau a chanolbwyntio ein hymdrechion

Cofnodwyd cyfanswm o 181,390 o ganlyniadau ar gyfer 122,150 o gleientiaid – 6 y cant o'r holl gleientiaid a welwyd a 10 y cant o gleientiaid a dderbyniodd fwy na dim ond gwybodaeth ac atgyfeiriad. Er nad yw hyn yn cynrychioli'r holl ganlyniadau, dyma yw'r set ddata fwyaf am ganlyniadau cyngor sydd ar gael yn y DU ac mae ei maint yn ein galluogi i lunio casgliadau hyderus ynglŷn â chanlyniadau nodweddiadol i'n cleientiaid:

- sicrhawyd £232 miliwn o enillion incwm, sef cyfartaledd o £4,370 fesul cleient. Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau, taliadau colli swydd, grantiau a thaliadau iawndal.
- £202 miliwn mewn budd-daliadau a chredydau treth, sef cyfartaledd o £4,675 fesul cleient
- £201 miliwn o ddyled wedi'i ddileu, sef cyfartaledd o £17,450 fesul cleient.
- Digartrefedd wedi'i atal neu ei osgoi i fwy na 5,000 o gleientiaid.

I gael gwybodaeth bellach am ganlyniadau ein cyngor ac i lwytho'r cyhoeddiad *Canlyniadau cyngor CAB* uchod o:
www.citizensadvice.org.uk/outcomes_of_advice

Helpu gyda chost canser

Mae Cyngor ar Bopeth a **Chymorth Canser Macmillan** yn cydweithio i ddarparu cyngor ar fudd-daliadau lles i bobl y mae canser yn effeithio arnynt. Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, mae canolfannau sy'n cymryd rhan yn y gwaith hwn wedi helpu mwy na 39,000 o gleientiaid gyda mwy na 190,000 o faterion gan arwain at fwy na £77 miliwn o enillion.

Gwelwyd cyfanswm o 11,499 o gleientiaid yn 2009/10 a chofnodwyd un canlyniad neu fwy i 5,288 o'r rhain, gan gofnodi cyfanswm o 9,922 o ganlyniadau.

- £25.7 miliwn o enillion incwm; yn cynnwys £24 miliwn mewn budd-daliadau.
- cynnydd cyfartalog o £5,593 mewn budd-daliadau neu gredydau treth fesul cleient.

Wrth dderbyn triniaeth ar gyfer canser y fron, roedd Juliet* yn cael ei bygwth yn gorfforol gan ei gŵr ymosodol. Roedd perygl y byddai'n rhaid i'w dau blentyn fynd i mewn i ofal ac roedd y straen a phoeni am ei sefyllfa yn effeithio ar adferiad Juliet. Cafodd Juliet gymorth gan gynghorydd CAB Macmillan i gyflwyno adroddiad i'r heddlu ac i hawlio budd-daliadau.

Ni allai Juliet gael y cymorth cyfreithiol yr oedd ei angen arni i dalu am gyfreithiwr nes i'w budd-daliadau gael eu dyfarnu. Llwyddodd y cynghorydd i gyflymu'r broses ac anfonwyd llythyr yn cadarnhau ei dyfarniad budd-dal o fewn awr.

O ganlyniad i'n cymorth ni, llwyddodd Juliet i gael yn agos at £11,600 y flwyddyn a derbyniodd grant Macmillan hefyd ar gyfer costau gwresogi a theithio.

*Newidiwyd yr enw.

Model – Macmillan Cancer Support

Gwasanaethu pobl yn gywir

Mae **BMAS** yn darparu cyngor arbenigol i aelodau a chyn-aelodau'r lluoedd arfog a'u dibynyddion. Ers mis Hydref 2007, mae 24,177 o bobl wedi derbyn help, gan ddarparu cyfanswm o £69.3 miliwn o ganlyniadau ariannol i gleientiaid.

Gwelwyd cyfanswm o 6,611 o gleientiaid gan ganolfannau sy'n cymryd rhan yn y gwaith yn 2009/10, ac roedd gan 2,915 o'r rhain un neu fwy o ganlyniadau, gan gofnodi cyfanswm o 5,943 o ganlyniadau.

- £7.3 miliwn o enillion incwm; yn cynnwys £5.3 miliwn mewn budd-daliadau.
- Cynnydd cyfartalog o £4,965 mewn budd-daliadau neu gredydau treth fesul cleient.
- £13.7 miliwn o ddyled wedi'i ddileu; cyfartaledd o £25,380 fesul cleient.

Wynebu dyled

Cafodd cyfanswm o 68,833 o gleientiaid eu gweld gan gynghorwyr **FIF** yn 2009/10 ac roedd gan 26,098 o'r rhain un neu fwy o ganlyniadau gan gofnodi cyfanswm o 43,122 o ganlyniadau.

- cafodd un neu fwy o ddyledion 7,408 o gleientiaid ei ddileu
- £93 miliwn o ddyled wedi'i ddileu, sef cyfartaledd o £21,850 fesul cleient
- cafodd un neu fwy o drefniadau ad-dalu dyled 17,856 o gleientiaid eu haildrefnu.

"Rwyf wedi bod yn cysylltu â CAB dros y degawd diwethaf. Rwyf wedi cael nifer o broblemau gwahanol – ar un adeg ni allai neb eu datrys dim ond y sefydliad gwych hwn. Ar sawl achlysur, maent wedi ennill fy achos gan roi cymorth emosiynol hollbwysig i mi. Mae'n rhaid i mi ddiolch o waelod calon i'r llu o wirfoddolwyr sy'n ymdrechu'n ddiflino ar ran pobl gyffredin, dros gyfiawnder a chydraddoldeb." **Cleient**

Ein nodau

- Darparu'r cyngor sydd ei angen ar bobl ar gyfer y problemau yn eu bywydau.
- Gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

Ein hegwyddorion

Mae gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn darparu cyngor annibynnol, cyfrinachol, diduedd am ddim i bawb ar eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'n gwerthfawrogi amrywiaeth, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio gwahaniaethu.

A oedd y cyhoeddiad hwn yn ddefnyddiol i chi? Rhannwch eich barn yn **corporate.communications@citizensadvice.org.uk**

Citizens Advice
Myddelton House
115–123 Pentonville Road
London N1 9LZ

Ffôn: 020 7833 2181

www.citizensadvice.org.uk
www.adviceguide.org.uk

Cyngor ar Bopeth yw enw gweithredu Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth. Rhif elusen gofrestredig 279057.

Cyhoeddwyd Awst 2011

Clawr blaen: © Alex Sturrock/Cyngor ar Bopeth. Defnyddiwyd modelau.
Dyluniad: wearemash.com